

Creu Coetir – Y Broses Sgorio a Dewis

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio'r broses sgorio a dewis ar gyfer y cynlluniau canlynol:

- Cynllun Cynllunio Creu Coetir
- Grant Creu Coetir
- Cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir

Er mwyn ystyried eich talu o dan y cynlluniau hyn, rhaid Datgan neu Fynegi Diddordeb yn y cynlluniau i Lywodraeth Cymru trwy RPW Ar-lein. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob Datganiad o Ddiddordeb fydd yn dod i law.

Mae'r broses dewis yn ystyried potensial pob Datganiad o Ddiddordeb i gyfrannu at brif amcanion y cynllun. Gwneir hyn trwy edrych faint o'r tir sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Ddiddordeb sy'n gorgyffwrdd â'r mapiau digidol – neu haenau'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) fel y'u gelwir – sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Mae'r haenau GIS yma yn dangos ble mae modd cyflawni amcanion penodol y cynlluniau.

Rhoddir sgôr arwynebedd (20m²) ar gyfer pob haen GIS, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Gallai'r sgôr gael ei newid, i adlewyrchu newid yn y flaenoriaeth.

Gweler y tabl yn **Atodiad 1** am fanylion haenau'r Amcanion Creu Coetir a'u pwysoliad.

Mae'r Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei asesu ar sail pob haen GIS a rhoddir sgôr yn ôl faint o arwynebedd sy'n gorgyffwrdd â phob haen. Cyfrifir hynny gan ddefnyddio'r fformiwla canlynol:

Arwynebedd o Haenen yr Amcan* x pwysoliad yr haenen = Sgôr

Arwynebedd y Datganiad o Ddiddordeb

**o fewn arwynebedd y Datganiad o Ddiddordeb*

Rhaid dilyn yr un fformiwla ar gyfer pob haen GIS sy'n gorgyffwrdd â'r Datganiad o Ddiddordeb. Wedyn, mae angen adio sgôr pob haen â'i gilydd i gael sgôr lawn y Datganiad o Ddiddordeb. Mae Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu rhoi yn eu trefn yn ôl faint o sgôr y maen nhw'n ei chael a chaiff y sgoriau uchaf eu dewis a'u prosesu gan ddibynnu ar faint o arian sydd ar gael.

Atodiad 1 – Haenau Amcanion Creu Coetir a'r Pwysoliad

| Blaenoriaeth | Amcan | Haen | Pwysoliad |
|---------------|------------------------------|----------------------------------|-----------|
| Dŵr | Lliniaru Llifogydd WWNP | Lliniaru Llifogydd WWNP (5) | 5 |
| Dŵr | Llygredd Dŵr Gwasgaredig | Llygredd Dŵr Gwasgaredig (1) | 1 |
| Dŵr | Llygredd Dŵr Gwasgaredig | Llygredd Dŵr Gwasgaredig (2) | 2 |
| Dŵr | Llygredd Dŵr Gwasgaredig | Llygredd Dŵr Gwasgaredig (3) | 3 |
| Dŵr | Llygredd Dŵr Gwasgaredig | Llygredd Dŵr Gwasgaredig (4) | 4 |
| Dŵr | Llygredd Dŵr Gwasgaredig | Llygredd Dŵr Gwasgaredig (5) | 5 |
| Coetir | Cynaliadwyedd Coed | Cynaliadwyedd Coed (1) | 1 |
| Coetir | Cynaliadwyedd Coed | Cynaliadwyedd Coed (2) | 2 |
| Coetir | Cynaliadwyedd Coed | Cynaliadwyedd Coed (3) | 3 |
| Coetir | Cynaliadwyedd Coed | Cynaliadwyedd Coed (4) | 4 |
| Coetir | Cynaliadwyedd Coed | Cynaliadwyedd Coed (5) | 5 |
| Carbon | Buddiannau Cymdeithasol | Buddiannau Cymdeithasol (1) | 1 |
| Carbon | Buddiannau Cymdeithasol | Buddiannau Cymdeithasol (2) | 2 |
| Carbon | Buddiannau Cymdeithasol | Buddiannau Cymdeithasol (3) | 3 |
| Carbon | Buddiannau Cymdeithasol | Buddiannau Cymdeithasol (4) | 4 |
| Carbon | Buddiannau Cymdeithasol | Buddiannau Cymdeithasol (5) | 5 |
| Bioamrywiaeth | Tir nad yw'n Gynefin | Tir nad yw'n Gynefin (2) | 2 |
| Bioamrywiaeth | Non Tir nad yw'n Gynefin | Tir nad yw'n Gynefin (3) | 3 |
| Bioamrywiaeth | Tir nad yw'n Gynefin | Tir nad yw'n Gynefin (4) | 4 |
| Bioamrywiaeth | Tir nad yw'n Gynefin | Tir nad yw'n Gynefin (5) | 5 |
| Carbon | Dal a storio carbon | Carbon (1) | 1 |
| Carbon | Dal a storio carbon | Carbon (2) | 2 |
| Carbon | Dal a storio carbon | Carbon (3) | 3 |
| Carbon | Dal a storio carbon | Carbon (4) | 4 |
| Carbon | Dal a storio carbon | Carbon (5) | 5 |
| Carbon | Ansawdd Aer PM25 | Ansawdd Aer PM25 (1) | 1 |
| Carbon | Ansawdd Aer PM25 | Ansawdd Aer PM25 (1.5) | 1.5 |
| Carbon | Ansawdd Aer PM25 | Ansawdd Aer PM25 (2.5) | 2.5 |
| Bioamrywiaeth | Rhwydweithiau Cynefin Coetir | Rhwydweithiau Cynefin Coetir (1) | 1 |
| Bioamrywiaeth | Rhwydweithiau Cynefin Coetir | Rhwydweithiau Cynefin Coetir (2) | 2 |
| Bioamrywiaeth | Rhwydweithiau Cynefin Coetir | Rhwydweithiau Cynefin Coetir (3) | 3 |
| Bioamrywiaeth | Rhwydweithiau Cynefin Coetir | Rhwydweithiau Cynefin Coetir (4) | 4 |
| Bioamrywiaeth | Rhwydweithiau Cynefin Coetir | Rhwydweithiau Cynefin Coetir (5) | 5 |
| Carbon | Ansawdd Aer Amonia | Ansawdd Aer Amonia (0.5) | 0.5 |
| Carbon | Ansawdd Aer Amonia | Ansawdd Aer Amonia (1) | 1 |
| Carbon | Ansawdd Aer Amonia | Ansawdd Aer Amonia (1.5) | 1.5 |

| | | | |
|--------|--------------------|--------------------------|-----|
| Carbon | Ansawdd Aer Amonia | Ansawdd Aer Amonia (1) | 2 |
| Carbon | Ansawdd Aer Amonia | Ansawdd Aer Amonia (2.5) | 2.5 |